Pennaeth / *Head*
Matthew H. T. Evans

Ffôn/*Tel*: 01639 842129
e-bost/*e-mail*:
ygystalyfera@npted.org

Ysgol Gyfun Ystalyfera
Glanyrafon
Ystalyfera
Abertawe/*Swansea*
SA9 2JJ

Mawrth 2017

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Dyma hanner tymor prysur arall o'n blaen ac ysgrifennaf atoch gyda rhai digwyddiadau a gweithgareddau yn yr ysgol.

Sioe Gerdd Chicago

Roedd yn hyfryd mwynhau'r Sioe Gerdd, 'Chicago' yn Theatr y Neuadd Gwyn yn ddiweddar. Os hoffech gadw'r perfformiad yn glir yn eich cof bydd DVD proffesiynol o'r perfformiad ar gael a gallwch archebu eich copi drwy ParentPay yn fuan iawn, bydd manylion ar ein gwefan.

Arholiadau allanol

Mae'n gyfnod prysur iawn i fyfyrwyr sy'n paratoi at arholiadau allanol. Mae amserlen arholiadau allanol yr haf ar gael ar ein gwefan ac mae copi hefyd ar hysbysfyrddau yn yr ysgol. Yn ogystal, bydd arholiadau llafar ac ymarferol yn digwydd yn ystod y tymor hwn – dymunwn yn dda i bob disgybl yn eu paratoi.

Llun & gwisg ysgol

Roedd yn hyfryd cael llun o'r ysgol gyfan yn ddiweddar - os hoffech gopi bydd modd archebu drwy ParentPay. Braf nodi mai dim ond ychydig iawn o ddisgyblion oedd heb grys na thei ar gyfer y llun. Gofynnaf yn garedig ichi barhau eich cefnogaeth i sicrhau fod pob disgybl yn gwisgo'n daclus i'r ysgol bob dydd. Crys, tei a siwmper, trowsus du ysgol neu sgert (dim jîns), dim gemwaith (ar wahân i set fychan o glustlysau yn y ddwy glust) a chadw colur yn ysgafn - dim lliw ar ewinedd, os gwelwch yn dda.

Aerosol a gwm cnoi

Gofynnwn os gwelwch yn dda am eich cefnogaeth i sicrhau nad yw disgyblion yn dod â phersawr aerosol gyda nhw i'r ysgol, hyd yn oed pan mae ganddynt wersi ymarfer corff. Yn ogystal gofynnwn i bob disgybl beidio dod â gwm cnoi i'r ysgol gan fod achosion diweddar o'r gwm yn difetha gwisg ysgol a dillad rhai unigolion. Os byddwn yn dod o hyd i'r eitemau rhain byddwn yn eu cymryd a'u gwaredu – diolchwn ichi am eich cefnogaeth.

Parcio

Bydd parcio yn gyfyng dros ben yn ystod y cyfnod nesaf hwn wrth i waith adeiladu fynd draw at yr hen adeilad / derbynfa ar heol Glanyrafon. Os gwelwch yn dda, **peidiwch â gyrru eich car ar safle'r ysgol yn ystod y dydd**, ac os ydych yn gadael neu gasglu eich plentyn o'r ysgol gwnewch yn siŵr eich bod yn osgoi mynedfeydd yr ysgol ac eich bod yn parcio mewn lleoliad diogel ac addas i gerddwyr, bysiau ac ymwelwyr eraill.

Eisteddfod yr Urdd

Dymunwn yn dda i ddisgyblion wrth baratoi at Eisteddfod yr Urdd Pen y Bont. Bydd Eisteddfod Cylch a Sir yn ystod y tymor hwn - pob dymuniad da i bawb!

Digwyddiadau'r Tymor

Mawrth 8	Eisteddfod Cylch yr Urdd
Mawrth 9	Noson Rieni Bl 9, 3.45 – 6.30pm
Mawrth 13 - 17	Taith Bl 9 i Peronnas, Ffrainc
Mawrth 14	Arholiad ymarferol TGAU Add Gorfforol
Mawrth 16	Dydd Adroddiad y BBC
Mawrth 21	Arholiad ymarferol TGAU Drama
Mawrth 24	Eisteddfod Sirol yr Urdd
Mawrth 27	Dydd adolygu Gwyddoniaeth TGAU Bl 10
Mawrth 27 - 29	Gwaith Maes Daearyddiaeth Bl 12
Mawrth 28	Eisteddfod Sir offerynnol a dawns
Mawrth 29 - 31	Arholiadau Bl 9
Ebrill 3-7	Ymweliad ysgol o Peronnas, Ffrainc ag Ystalyfera
Ebrill 6	Cyfarfod Ariannu Prifysgol Bl 13, 6pm
Ebrill 6	Arholiad Llafar Cymraeg Llen TGAU
Ebrill 7	Adroddiadau llawn Bl 11, 12 a 13 / Diwedd Tymor
Ebrill 8 – 23	**Gwyliau Pasg**
Ebrill 24	Tymor y Sulgwyn yn dechrau (Wythnos 2)
Mai 2-5	Profion Cenedlaethol Darllen & Rhifedd Bl 7-9

Yn olaf, os hoffech fwy o fanylion am unrhyw un o'r materion yma, neu os ydych am drafod unrhyw fater arall, peidiwch â phetruso cysylltu â ni. Diolch am eich cefnogaeth ddiflino i'r ysgol.

Yn gywir,

Matthew H T Evans
Pennaeth

Pennaeth / *Head*
Matthew H. T. Evans

Ffôn/*Tel*: 01639 842129
e-bost/*e-mail*:
ygystalyfera@npted.org

Ysgol Gyfun Ystalyfera
Glanyrafon
Ystalyfera
Abertawe/*Swansea*
SA9 2JJ

March 2017

Dear Parent / Guardian,

As we begin yet another busy half term, I write to inform you of some events at the school.

Chicago Musical

It was fantastic to enjoy the musical 'Chicago' at the Gwyn Hall recently. If you would like to retain the memories of the performance then we are delighted to offer you a copy of a professional DVD of the show for your records. You can order your copy through ParentPay and we will share more details with you on our website shortly.

External examinations

It is an exceptionally busy term as students prepare for their external examinations. The summer timetable of exams is available on our website and copies are posted on our school noticeboards. In addition this term is busy with practical and oral examinations. I would remind Year 10 students that we are preparing a whole day Science revision on the 27th of March – full attendance is expected on this important day please.

School Photo & Uniform

It was great to have a whole school photo taken recently – copies will be available to purchase, again through ParentPay. It was striking that very few students turned up to school without correct school uniform on that day. Can I kindly ask for your continued support to ensure all pupils turn up to school smartly and correctly each day. Shirt, tie and jumper as well as black skirt or trousers (no jeans), no jewellery (apart from a small set of earrings in each ear) and please keep make-up discreet – no nail varnish please.

Aerosol and chewing gum

We also kindly ask for you to ensure that children do not bring any aerosol deodorant to school – even if they have PE lessons on that day. Pupils should also refrain from bringing chewing gum to school as we have had several incidents of gum, marking and ruining school uniform. If we come across any of these items then we will confiscate them and destroy them – thank you for your continuing support.

Parking

Parking will continue to be restricted on site for the foreseeable future as construction work moves to the front of the old building. **Please do not drive your car onto the school campus during the day**, and if you are collecting or dropping off your child from school please do not block the entrances and park in a legal and safe area being aware of other pedestrians and road users.

Urdd Eisteddfod

Our pupils are currently preparing for the Eisteddfod at Bridgend. We send best wishes to everyone who are competing in the preliminary rounds.

Term events

March 8	Urdd Eisteddfod, preliminary
March 9	Year 9 Parents Evening, 3.45 - 6.30pm
March 13 - 17	Yr 9 visit to Peronnas, France
March 14	PE GCSE practical examination
March 16	BBC Report Day
March 21	Drama GCSE practical examination
March 24	Urdd Eisteddfod, County
March 27	Year 10 GCSE Science Revision Day
March 27 - 29	Yr 12 Geography field work
March 28	Urdd Eisteddfod, County instrumental and dance
March 29 - 31	Year 9 Examinations
April 3 - 7	School visit to Ystalyfera from Peronnas, France
April 6	Higher Education Finance evening (Yr13), 6pm
April 6	Welsh Literature GCSE Oral Examination
April 7	Year 11, 12 a 13 Full Reports / End of Term
April 8 - 23	**Easter Holidays**
April 24	Whitsun term start (Week 2)
May 2 - 5	Yr 7 -9 National Reading & Numeracy tests

Finally, if you would like more details on any of the above, please do not hesitate to contact us. Thank you for your continued support.

Yours truly,

Matthew H T Evans
Head